| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Cymdeithasol Goruchwylio |
| **Portffolio:** | Gwasanaethau Plant |
| **Yn atebol i'r:** | Rheolwr Tîm |
| **Lleoliad:** | Y Fflint, Sir y Fflint |
| **Cyfeirnod y Swydd:** | |

**Pwrpas y Swydd**

**Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio gyda Thîm Maethu'r Awdurdod Lleol**

**Prif Gyfrifoldebau**

Asesu, goruchwylio a chefnogi gofalwyr maeth cyffredinol a chysylltiedig, gan reoli risgiau'n briodol

Adrodd i'r Rheolwr Tîm

Swydd wag ar gyfer Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso gyda chymhwyster Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Lefel 2

1. Goruchwylio clir, bod yn gyfrifol am lwyth achosion a chynnal amrywiaeth o asesiadau gofal cymunedol a diogelu fel sy'n briodol.

2. Comisiynu ystod o wasanaethau a luniwyd i leihau risgiau a gwella ansawdd bywyd y defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr.

3. Gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau i'w helpu nhw i wneud penderfyniadau deallus, gan eu galluogi i egluro a mynegi eu hanghenion a chyfrannu at gynlluniau gwasanaeth.

4. Cysylltu â chydweithwyr yn eich adran, mewn adrannau eraill ac asiantaethau allanol er mwyn casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i weithgareddau asesu a chynllunio gofal.

5. Cadw a diweddaru nodiadau achos a chofnodion eraill, ysgrifennu adroddiadau yn ôl yr angen; rhoi tystiolaeth yn y llys ar gyfer achosion gofal.

6. Cwblhau rhaglenni hyfforddiant a phrofiad gwaith cysylltiedig ar gyfer eich datblygiad yn y maes gofal cymdeithasol.

7. Rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth o gamdriniaeth, gan ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Cymru Gyfan.

**Goruchwylio / Rheoli Pobl**

Rheoli llwyth achosion o ymgeiswyr ac aelwydydd cymeradwy i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau maethu priodol a chanllawiau arfer gorau.

**Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol**

| |
|---|
| Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gael y gwiriadau recriwtio a'r Asesiadau Risg Iechyd Galwedigaethol gofynnol. Ni fydd ymgeiswyr yn cael caniatâd i ddechrau cyflogaeth nes bod gwiriadau recriwtio boddhaol wedi'u cynnal.<br><br>• Gwiriad manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd<br>• Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru<br>• Mae'r swydd hon yn cynnwys gyrru'n rheolaidd, ac mae angen trwydded yrru lawn ynghyd â mynediad at gerbyd |
| **Amodau Gwaith Arbennig** |
| Mae trefniadau gweithio'n hyblyg a hybrid ar gael. |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| *Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut yr ydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.* | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Dull asesu** |
| Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Profiad perthnasol o'r grŵp cleientiaid | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Gwybodaeth am theori ac ymarfer asesiadau gofal | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth berthnasol drwy gymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| **Sgiliau** | | |
| Y Gymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |
| Lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Dull asesu** |
| **Y Cwsmer yn Gyntaf:**<br>Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio/Gweithio mewn Partneriaeth:**<br>Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | | |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy feddwl am syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Arwain a chymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |